

12 Ebrill 2021

Annwyl Gefnogwr Treftadaeth Gymunedol,

Gobeithiwn eich bod yn ddiogel ac yn iach, a'ch bod chi fel ni yn edrych ymlaen at lacio cyfyngiadau ymhellach fel y gallwn unwaith eto ddechrau mwynhau'r amrywiaeth hyfryd o dreftadaeth ledled y sir.

Fel y gwyddoch, mae gan PLANED draddodiad hir o weithio gyda grwpiau a chymdeithasau hanes cymunedol Sir Benfro. Wrth inni symud tuag at yr haf, hoffem weithio gyda chi i ddathlu a hyrwyddo eich gwaith gwych trwy **Wythnos Treftadaeth Gymunedol gyntaf Sir Benfro**.


Cynhelir yr wythnos hon o ddatliadau rhwng **Dydd Llun 31 Mai a Dydd Gwener 4 Mehefin**, ond oherwydd cyfyngiadau COVID ac er mwyn sicrhau y gallwn amddiffyn preswylwyr, ymwelwyr, a chydweithwyr, cynhelir y digwyddiad agoriadol ar-lein yn unig. Rydym yn gweithio'n galed i ddod â chyfres o **ddigwyddiadau rhithwir a gynhyrchwyd gan PLANED mewn partneriaeth â chymunedau**, ac rydym yn gobeithio y bydd eich grŵp yn awyddus i fod yn rhan o hyn.

Cyn bo hir, byddwn yn rhannu **rhaglen gychwynnol o bodlediadau, cwisiau ar-lein, sgysiau wedi'u recordio ymlaen llaw, a digwyddiadau eraill** a gynhelir trwy gydol yr wythnos honno, gyda chi. Gobeithiwn hefyd y gallai eich grŵp gael ei ysbrydoli i greu peth o'i gynnwys rhithwir ei hun, a byddem wrth ein bodd yn clywed am hyn ac yn helpu i'w hyrwyddo.

Os hoffech chi gyfrannu at unrhyw un o'n digwyddiadau, neu os oes gennych syniadau am eich un chi a bod angen rhywfaint o gymorth arnoch - neu os ydych yn syml eisiau gwneud rhywbeth fel rhan o'r wythnos ac yr hoffech i ni helpu i'w hyrwyddo, mae croeso i chi gysylltu gyda stuart.berry@planed.org.uk i drafod eich syniadau. Nid oes unrhyw gost i gymryd rhan, a byddwn yn hynod o falch o'ch cefnogi cymaint ag y gallwn.

Nodwch yr wythnos yn eich dyddiadur a chysylltwch os bydd gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau.

Gyda dymuniadau gorau,



IWAN THOMAS
Prif Weithredwr / Chief Executive

